Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Anghenion Dysgu Ychwanegol

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi trosolwg o'r system ar gyfer diwallu 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY) dysgwyr rhwng 0 a 25 mlwydd oed yng Nghymru. Sefydlwyd y system ADY o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, a chafodd y system ei chyflwyno'n raddol rhwng 2021 a 2025.

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd wrth iddynt gynorthwyo eu hetholwyr. Ni fwriedir iddi gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 7**

**2. Beth yw 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' a 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol'? ..... 9**

**3. Sut dylid nodi ADY? ..... 12**

Sut a phryd y dylid cyfleu penderfyniadau? ..... 13

**4. Pa ddarpariaeth ddylid ei gwneud i ddiwallu ADY? ..... 15**

Pryd y dylid cyhoeddi cynllun datblygu unigol? ..... 16

Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg ..... 16

**5. Pryd mae nodi ADY a chyflwyno CDUau yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol neu'r coleg? ..... 17**

Pa mor hir sydd gan awdurdodau lleol i ystyried achosion? ..... 18

Dysgwyr mewn amgylchiadau penodol ..... 19

**6. Sut a phryd y dylai'r GIG fod yn rhan o'r broses? ..... 20**

A oes yn rhaid i fyrddau iechyd gydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys? 21

**7. Pa wybodaeth a chyngor ddylai fod ar gael? ..... 22**

**8. Beth sy'n digwydd os nad yw teuluoedd yn fodlon a'u bod am herio penderfyniadau? ..... 22**

Gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniadau neu gamau gweithredu gan ysgol neu goleg ..... 23

Apelio i'r Tribiwnlys Addysg ..... 23

Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfod, a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol ..... 23

Nid yw bod yn rhan o drefniadau eraill yn effeithio ar yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys, ac nid yw'r hawl hon yn ddibynnol ar fod yn rhan o drefniadau eraill ychwaith ..... 24

Cyfeillion achos ..... 24

**9. Gorchmynion ac argymhellion gan y Tribiwnlys ..... 25**

**10. Cyflyrau meddygol ac addasiadau rhesymol ar gyfer anableddau ..... 27**

Cyflyrau meddygol ..... 27

Anableddau ..... 27

**11. Gwaith craffu a datblygiadau polisi diweddar ..... 28**

# 1. Cyflwyniad

**Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn fater y mae llawer o deuluoedd ledled Cymru yn ei wynebu, ac mae angen cymorth a chefnogaeth ar y teuluoedd hyn. Felly, mae'n un o'r materion cymharol gyffredin y mae etholwyr yn cysylltu ag Aelodau o'r Senedd yn eu cylch.**

Sefydlodd **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018**, a'r rheoliadau dilynol a wnaed o dan y Ddeddf honno, system newydd ar gyfer diwallu anghenion ychwanegol dysgwyr. Mae'r gyfundrefn newydd yn disodli'r system 'Anghenion Addysgol Arbennig' (AAA) flaenorol, a ystyriwyd ers tro fel un nad oedd **"bellach yn addas i'w diben"**. Cafodd y system ADY newydd **ei chyflwyno'n raddol rhwng mis Medi 2021 a mis Gorffennaf 2025**, sy'n golygu ei bod wedi'i chyflwyno'n llawn o ddechrau blwyddyn academaidd 2025/26 a bod y system AAA bellach wedi'i disodli'n llwyr.

Un o **egwyddorion y system ADY** yw:

> *"Gweithredu ar sail hawliau lle mae safbwyntiau, dymuniadau a theimladau'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn ganolog i gynllunio a darparu cefnogaeth; a lle mae'r plentyn, rhiant y plentyn, neu'r person ifanc yn cael ei alluogi i gyfrannu cymaint â phosibl at y prosesau gwneud penderfyniadau a lle mae ganddo hawliau effeithiol i herio penderfyniadau am ADY, DDdY [Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol] a materion cysylltiedig".*

Mae'r system ADY yn berthnasol i ddisgyblion ysgol a dysgwyr sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol. Mae ei chwmpas yn ymestyn y tu hwnt i oedran ysgol i gwmpasu plant a phobl ifanc o 0 i 25 mlwydd oed, sef pan fo angen darpariaeth addysgol o unrhyw fath ar blant o dan 3 mlwydd oed, neu pan fo pobl ifanc 16 mlwydd oed a throsodd mewn addysg bellach.

Yn y flwyddyn academaidd **2024/25**, **nodwyd bod gan 9.5% o ddisgyblion ysgol ADY**, cyfran sydd wedi lleihau ers **2020/21**, pan nodwyd ffigur o 19.5%. Mae'r canllaw hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sut y dylai'r system ADY weithredu, er y caiff rhywfaint o gefndir polisi'r

ffactorau sy'n sail i'r gostyngiad hwn ei drafod ym mhennod 11 o'r canllaw. Mae yna gonsenswsw cyffredinol nad yw'r gostyngiad yn adlewyrchiad bod gan lai o blant lai o anghenion ond bod yr anghenion hyn weithiau'n cael eu diwallu mewn ffordd wahanol i'r gorffennol.

Cyhoeddodd **Llywodraeth flaenorol Cymru** **'becyn cymorth i rieni a gofalwyr'** i'w helpu i ymdrin â'r system ADY. Hefyd, cyhoeddodd ganllawiau ar gyfer ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i ategu **Cod ADY 2021**. Y Cod hwn yw'r prif ffynhonnell o ganllawiau cynhwysfawr ynghylch sut y dylid gweithredu'r system ADY o dan Ddeddf 2018. Cafodd y **canllawiau atodol** diweddaraf eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2026, ar ôl i **adolygiad a gynhaliwyd yn 2025** nodi anghysondebau a diffygion yn y ffordd yr oedd y ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu. Disgwylir y bydd y Cod ei hun yn cael ei adolygu a'i ddiwygio yn ystod tymor y Seithfed Senedd.

**Nid yw'r canllaw hwn yn ceisio efelychu'r pecyn cymorth i rieni a gofalwyr gan Lywodraeth Cymru**, ond mae'n gweithredu fel ffynhonnell amgen o wybodaeth gryno i Aelodau o'r Senedd a'u hetholwyr.

# 2. Beth yw 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' a 'Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol'?

**Mae rhai dysgwyr yn wynebu mwy o anawsterau wrth ddysgu nag eraill, ac mae angen mwy o gefnogaeth arnynt. Yn aml, gellir ymdrin â'r anghenion hyn drwy addysgu gwahaniaethol neu roi cymorth ychwanegol fel rhan o'r ddarpariaeth gyffredinol mewn ysgolion. Fodd bynnag, pan mae gofyn am 'Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol' ar gyfer yr anghenion hyn, cânt eu hystyried yn 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' (ADY), sy'n sbarduno'r hawl i gael 'Cynllun Datblygu Unigol' (CDU).**

Mae **Adran 2** o Ddeddf 2018 yn gosod prawf dau gam i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY.

**Yn gyntaf**, p'un ag yw'r dysgwr naill ai:

- yn cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o ddysgwyr eraill sydd o'r un oedran; **neu**
- fod ganddo anabledd (sydd, at ddibenion **Deddf Cydraddoldeb 2010** ag effaith 'sylweddol' a 'hirdymor') sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant o fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran.

**Ac, yn ail**, fod:

- yr anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

Mae ail ran y diffiniad hwn yn hanfodol i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY: os gellir ymdrin ag anhawster dysgu sylweddol fwy neu anabledd sy'n atal neu'n

llesteirio dysgwr heb fod angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arno, yna ni fydd y dysgwr hwnnw'n cael ei ystyried fel un sydd ag ADY.

Mae **Adran 3** o'r Ddeddf yn diffinio darpariaeth ddysgu ychwanegol fel darpariaeth addysgol neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i, yr hyn a wneir yn gyffredinol ar gyfer disgyblion eraill o'r un oedran mewn lleoliadau a gynhelir. Ystyrir unrhyw ddarpariaeth addysgol i blant o dan 3 mlwydd oed yn ddarpariaeth ddysgu ychwanegol, felly lle bo angen hyn, ystyrir bod gan y plentyn ADY.

Y prawf yn y Ddeddf ar gyfer penderfynu a oes gan blentyn o dan oedran ysgol orfodol (5 mlwydd oed) ADY yw a fyddai'n debygol y byddai ganddo ADY ar yr adeg y byddai'n cyrraedd oedran ysgol orfodol pe na bai unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol wedi'i gwneud ar ei gyfer. Mae'r Ddeddf yn ei **gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol benodi swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol y blynyddoedd cynnar**, sy'n gyfrifol am weithio gyda rhieni, meithrinfeydd, ysgolion, gwasanaethau plant a gweithwyr iechyd proffesiynol i godi ymwybyddiaeth o ADY ac i hyrwyddo ymyrraeth gynnar pan fo angen.

Fel y nodwyd yn gynharach yn y bennod hon, ni fydd plentyn yn cael ei ystyried fel un sydd ag ADY os gellir ymdrin â'i anhawster dysgu drwy addysgu gwahaniaethol neu ymyriadau wedi'u targedu sy'n dod o fewn y ddarpariaeth sydd ar gael yn gyffredinol mewn ysgolion a gynhelir, h.y. nad ydynt yn gyfystyr â darpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae addysgu gwahaniaethol yn golygu dilyn dull hyblyg o addysgu lle mae athrawon yn teilwra cynnwys, prosesau, cynnyrch a'r amgylchedd dysgu i ddiwallu anghenion amrywiol pob disgybl.

Un o'r diffygion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei **hadolygiad o'r broses o weithredu'r ddeddfwriaeth** a **thystiolaeth gan Lywydd Tribiwnlys Addysg Cymru** yw nad oes dealltwriaeth gyffredinol o'r ffin rhwng yr hyn a ddarperir yn gyffredinol a darpariaeth ddysgu ychwanegol na'r ffordd y caiff y ffin hon ei chymhwyso. Mae ysgolion hefyd wedi ailgalibro'r ffin hon ers cyflwyno'r **Cwricwlwm i Gymru**, sy'n anelu at fod yn fwy cynhwysol a chyfannol, gan leihau'r angen am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol weithiau. O ganlyniad, canfu'r adolygiad fod termau ac egwyddorion allweddol ynghylch y diffiniad cyfreithiol o ADY yn cael eu cymhwyso mewn ffordd anghyson.

Mae'r **pecyn cymorth i rieni a gofalwyr** gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys siart lif sy'n dangos y broses y dylid ei dilyn wrth wneud penderfyniadau.

Mae'r pecyn cymorth hefyd yn grwpio'r ystod eang o anawsterau dysgu ac anableddau dysgu yn bedwar maes eang:

- cyfathrebu a rhyngweithio;
- ymddygiad, datblygiad emosiynol a chymdeithasol;
- anghenion synhwyraidd a/neu gorfforol; a
- gwybyddiaeth a dysgu.

# 3. Sut dylid nodi ADY?

## Fel arfer, ysgol neu goleg fydd yn penderfynu a oes gan ddysgwr ADY. Fodd bynnag, mewn achosion lle mae’r anghenion yn fwy eang eu natur, cyfrifoldeb yr awdurdod lleol fydd hynny. Hefyd, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY. Gall rhieni hefyd gyfeirio penderfyniad ysgol at awdurdod lleol os ydynt yn dymuno iddo gael ei ailystyried.

Pan ddaw i sylw staff mewn ysgol neu goleg addysg bellach y gallai fod gan ddysgwr ADY, mae ganddynt ddyletswydd i ystyried a phenderfynu ai dyna’r achos. Gallai’r anghenion hyn ddod i’w sylw drwy eu harsylwadau eu hunain o gynnydd y dysgwr. Fel arall, gall rhiant ofyn i’r ysgol neu’r coleg asesu eu plentyn, neu gall gweithiwr iechyd neu weithiwr proffesiynol arall wneud atgyfeiriad.

Nid oes yn rhaid ystyried y mater o’r newydd os oes penderfyniad eisoes wedi’i wneud nad oes gan ddysgwr ADY ac nad yw ei anghenion wedi newid yn sylweddol neu os nad oes gwybodaeth newydd i'w hystyried.

Yn achos plant o dan oedran ysgol gorfodol sydd ddim yn mynychu’r ysgol eto—er enghraifft, plant sy’n mynd i leoliadau gofal plant neu ddarparwr addysg feithrin nas cynhelir—yr awdurdod lleol sydd â’r dyletswydd cyfreithiol i benderfynu a oes gan y plant hynny ADY.

Mae **pennod 20 o'r Cod ADY** yn nodi sut y dylid dilyn y broses o benderfynu a oes gan ddysgwr ADY. Dylai hyn gynnwys casglu tystiolaeth i helpu i lywio penderfyniad o'r fath, a all ddod gan staff mewn ysgol, coleg neu leoliad, neu wasanaethau addysgol eraill, neu gall ddod gan y dysgwr a'i rieni eu hunain.

Pan fo gan ddysgwr anabledd wedi'i nodi, bydd y dystiolaeth a gesglir yn ymwneud ag a yw'r anabledd hwnnw'n ei atal neu'n ei rwystro rhag cael mynediad at addysg neu hyfforddiant prif ffrwd a ddarperir yn gyffredinol i ddysgwyr eraill o'r un oedran. Mae'n debygol y bydd y dystiolaeth hon yn dod drwy gyngor gan wasanaethau arbenigol, fel seicolegwyr addysgol,

therapyddion lleferydd ac iaith, neu wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymorth arbenigol eraill sy'n ymwneud â’r gwaith o asesu anghenion y dysgwr.

Pan nad oes gan ddysgwr anabledd wedi'i nodi, gellir defnyddio nifer o wahanol ffynonellau o dystiolaeth i benderfynu a oes gan y dysgwr anhawster dysgu sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o ddysgwyr eraill o'r un oedran.

Yn y ddwy gyfres o amodau, bydd p’un ag yw'r anabledd neu'r anhawster dysgu yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn penderfynu a yw'r anabledd neu'r anhawster dysgu hwnnw'n gyfystyr ag ADY.

> Nid yw diagnosis meddygol yn golygu'n awtomatig bod gan ddysgwr ADY. Yr hyn sy'n bwysig yw’r cwestiwn a yw'r prawf cyfreithiol yn adran 2 o Ddeddf 2018 wedi'i fodloni. Bwriad y Cod ADY a'r **canllawiau atodol** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026 yw helpu i lywio’r broses o gymhwyso'r prawf cyfreithiol hwnnw. Gall diagnosis fod yn un o'r darnau o dystiolaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniad o'r fath, ond ni ddylai fod angen diagnosis i nodi bod gan ddysgwr ADY.

Os na all staff mewn ysgol neu goleg benderfynu ar eu pennau eu hunain a oes gan ddysgwr ADY – er enghraifft, os na ellir disgwyl yn rhesymol iddynt wneud y penderfyniad hwn – gallant ofyn i'r awdurdod lleol wneud y penderfyniad ar eu rhan (gweler pennod 5 o'r canllaw hwn). Bydd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio unrhyw dystiolaeth sydd eisoes wedi'i chasglu, ond efallai y bydd arnynt angen rhagor o dystiolaeth, cyngor neu fewnbwn gan weithwyr proffesiynol neu sefydliadau eraill. Wrth i awdurdod lleol benderfynu a oes gan blentyn ADY, rhaid i’r awdurdod lleol hwnnw ystyried a ddylai ofyn am gyngor gan seicolegydd addysgol.

Gall awdurdodau lleol hefyd geisio cynnwys y GIG yn y broses i helpu lywio eu penderfyniad (gweler pennod 6 o'r papur briffio hwn).

## Sut a phryd y dylid cyfleu penderfyniadau?

Mae gan ysgolion a cholegau **35 diwrnod tymor** i benderfynu a oes gan ddysgwr ADY ar ôl iddo ddod i'w sylw y gallai fod gan y plentyn ADY yn ogystal â chyfleu'r penderfyniad hwnnw i'r rhieni (neu'r dysgwr yn achos person ifanc mewn coleg). Fodd bynnag, nid oes angen iddynt gadw at yr amserlen hon os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w

rheolaeth. Rhaid i'r hysbysiad i rieni / dysgwr mewn coleg gynnwys manylion cyswllt yr ysgol / coleg perthnasol yn ogystal â:

- gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor;
- manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol; ac
- (yn achos penderfyniadau gan ysgolion) gwybodaeth am yr hawl i ofyn i'r awdurdod lleol ailystyried y mater.

Yn achos person ifanc mewn coleg, rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio i **Dribiwnlys Addysg Cymru** yn erbyn penderfyniad. Ni all rhieni apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn penderfyniad gan ysgol, ond gallant wneud hynny mewn perthynas â phenderfyniad gan awdurdod lleol ar ôl iddo ailystyried y mater.

# 4. Pa ddarpariaeth ddylid ei gwneud i ddiwallu ADY?

## Dylid diwallu ADY dysgwr drwy ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY), a dylid manylu ar y ddarpariaeth hon mewn Cynllun Datblygu Unigol (CDU).

Rhaid i unrhyw ddysgwr y nodwyd bod ganddo ADY gael cynllun datblygu unigol wedi'i baratoi ar ei gyfer. Mae hon yn ddogfen statudol sy'n rhoi hawl gyfreithiol i'r ddarpariaeth sydd wedi'i manylu ynddi.

Rhaid i gynllun datblygu unigol ddisgrifio unrhyw ADY sydd gan yr unigolyn perthnasol a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ei hangen arno yn sgil yr anhawster dysgu neu anabledd dysgu.

Gall y cynllun datblygu unigol nodi ysgol benodol y dylid lleoli'r dysgwr ynddi. Y **sefyllfa ddiofyn o dan Ddeddf 2018** yw y dylai'r dysgwr fynychu darpariaeth brif ffrwd, oni bai bod rhai eithriadau'n berthnasol, fel a ganlyn:

a. bod addysgu'r plentyn mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn anghydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill;

b. bod addysgu'r plentyn mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir yn briodol er lles pennaf y plentyn ac yn gydnaws â darparu addysg effeithlon ar gyfer plant eraill; a

c. bod rhiant y plentyn yn dymuno i'r plentyn gael ei addysgu mewn man ac eithrio mewn ysgol brif ffrwd a gynhelir.

Noder nad yw eithriad (c) yn arwain at fod rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â dymuniadau rhiant i'w plentyn gael ei addysgu mewn ysgol arbennig. Yn hytrach, ei ystyr yw y gallant ddefnyddio hynny fel rheswm dros wyro oddi wrth y rhagdybiaeth o blaid darpariaeth brif ffrwd. Rhaid i awdurdodau lleol ystyried dymuniadau dysgwyr a rhieni,

ond nid yw hynny'n golygu bod rhaid iddynt wneud yr hyn y mae'r teulu ei eisiau bob amser.

Bydd cynlluniau datblygu unigol yn amrywio yn dibynnu ar natur a graddfa ADY y dysgwr. Pan fo angen darpariaeth llai helaeth, mae'n debygol y bydd y cynllun datblygu unigol yn fyrrach ac yn llai manwl. Pan fo angen darpariaeth fwy helaeth neu arbenigol, mae'n debygol y bydd y cynllun datblygu unigol yn fwy manwl a gall gynnwys mewnbwn gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol.

Mae **pennod 23 o'r Cod ADY** yn manylu ar sut y dylid llunio a chynnal (gweithredu) cynlluniau datblygu unigol (CDUau), a beth y dylent ei gynnwys. Mae **Atodiad A i'r Cod** yn cynnwys templed cynllun datblygu unigol, y mae'n rhaid ei ddefnyddio, er y gellir addasu hyd, arddull ac ymddangosiad gweledol y ffurflen safonol. Dwy adran allweddol yw adran 2A, sef y disgrifiad o ADY y dysgwr, ac adran 2B, y disgrifiad o'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Gyda'i gilydd, mae'r adrannau hyn yn ffurfio craidd y cynllun datblygu unigol, gan gysylltu anghenion y dysgwr yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth y mae ganddo hawl i'w derbyn.

## Pryd y dylid cyhoeddi cynllun datblygu unigol?

Rhaid i ysgolion a cholegau lunio a chyhoeddi’r cynllun datblygu unigol o fewn **35 diwrnod tymor** ar ôl iddynt ddod yn ymwybodol am y tro cyntaf y gallai fod gan y dysgwr ADY (os ydynt yn penderfynu bod gan y dysgwr ADY). Fodd bynnag, nid oes yn rhaid iddynt gadw at yr amserlen hon os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth. Rhaid i'r hysbysiad i rieni / dysgwr mewn coleg gynnwys manylion cyswllt yr ysgol / coleg, yn ogystal â:

- gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor;
- manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol; a
- gwybodaeth am yr hawl i ofyn i'r awdurdod lleol gymryd y cyfrifoldeb am gynnal y cynllun datblygu unigol.

Yn achos person ifanc mewn coleg, rhaid i'r hysbysiad hefyd gynnwys gwybodaeth am yr hawl i apelio i **Dribiwnlys Addysg Cymru** ynghylch agweddau penodol ar y cynllun datblygu unigol. Ni all rhieni apelio i'r Tribiwnlys ynghylch cynllun datblygu unigol a gyhoeddir gan ysgol ond gallant wneud

hynny mewn perthynas ag awdurdod lleol ar ôl iddo gael cais i gynnal y cynllun datblygu unigol perthnasol.

## Darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

Nid oes hawl absoliwt i dderbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Fodd bynnag, rhaid i ysgolion, colegau, awdurdodau lleol a byrddau iechyd ystyried a ddylid cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol i'r dysgwr yn y Gymraeg ac os felly, rhaid iddynt nodi hynny yn y cynllun datblygu unigol. Rhaid iddynt gymryd **"pob cam rhesymol"** i sicrhau bod y dysgwr yn derbyn y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol honno drwy gyfrwng y Gymraeg. (Gweler **adrannau 12(6) a 12(7)** o Ddeddf 2018, er enghraifft, mewn perthynas ag ysgolion a cholegau.)

Mae Ddeddf 2018 (**adran 90**) yn cynnwys pŵer i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau i ddileu'r cafeat 'cymryd pob cam rhesymol' yn y dyfodol, a'i gwneud yn gwbl ofynnol i ddarpariaeth ddysgu ychwanegol fod ar gael yn Gymraeg.

Mae **adran 63** o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu'n gyson a yw'r trefniadau'n ddigonol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc yn eu hardal. Mae hyn yn cynnwys digonolrwydd y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

O dan **adran 89** o'r Ddeddf, rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg bob pum mlynedd. Mae'r cyntaf o'r rhain **yn cael ei gynnal ar hyn o bryd** a disgwylir i'r canlyniadau gael eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2026.

# 5. Pryd mae nodi ADY a chyflwyno CDUau yn gyfrifoldeb i'r awdurdod lleol yn hytrach na'r ysgol neu'r coleg?

## Y sefyllfa ddiofyn yw bod yr ysgol neu'r coleg yn gyfrifol am benderfynu a oes gan ddysgwr ADY, cyn llunio a chynnal cynllun datblygu unigol. Fodd bynnag, lle mae anghenion yn fwy eang eu natur, gall ysgol neu goleg ofyn i'r awdurdod lleol gymryd y cyfrifoldeb hwn.

Mae **adran 12(2)** o Ddeddf 2018 yn diffinio achosion o'r fath fel sefyllfa pan mae corff llywodraethu'r ysgol / coleg yn credu bod gan y dysgwr ADY:

i. a all alw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol na fyddai'n rhesymol i'r corff llywodraethu ei sicrhau;

ii. na all y corff llywodraethu bennu eu graddau neu eu natur yn ddigonol; neu

iii. na all y corff llywodraethu bennu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar eu cyfer yn ddigonol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol roi cyfarwyddyd i ysgol lunio a chynnal cynllun datblygu unigol, sydd yn y bôn yn golygu y gall awdurdodau lleol wrthod cymryd y cyfrifoldeb hwnnw. Yn achos colegau, gall awdurdodau lleol ofyn i goleg fod yn gyfrifol. Os bydd y coleg yn gwrthod, Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu pwy sy'n gyfrifol.

Mae paragraffau **12.36 i 12.46** (ysgolion) ac **16.40 i 16.48** (colegau) o'r Cod ADY yn cynnwys mwy o fanylion am yr amgylchiadau lle dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol yn hytrach na'r ysgol / coleg. Disgwylir hefyd i awdurdodau lleol gael cyfres o egwyddorion i'w dilyn i benderfynu ai nhw neu'r ysgol / coleg ddylai fod yn gyfrifol am achosion penodol.

Gwnaeth yr **adolygiad deddfwriaethol yn 2025** ganfod amwysedd ac anghysondeb ynghylch ai awdurdodau lleol oedd yn gyfrifol am achosion penodol yn hytrach na'r ysgol / coleg perthnasol.

## Pa mor hir sydd gan awdurdodau lleol i ystyried achosion?

Yn achos disgyblion ysgol, mae gan awdurdodau lleol **saith wythnos** i ailystyried penderfyniad ysgol nad oes gan ddisgybl ADY neu i benderfynu a ddylid cymryd cyfrifoldeb am y cynllun datblygu unigol a roddir i ddisgybl a'r broses o'i weithredu. Os mai'r awdurdod lleol sy'n gwneud y penderfyniad hwnnw o'r cychwyn cyntaf (h.y. aeth yr achos yn syth at yr awdurdod lleol yn hytrach na chael ei ystyried gan yr ysgol yn gyntaf), mae ganddo **12 wythnos** i weithredu.

Yn achos myfyrwyr coleg, mae gan yr awdurdod lleol **12 wythnos** i weithredu.

Nid oes yn rhaid i awdurdodau lleol gadw at yr amserlenni hyn os yw'n anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.

Rhaid i'r hysbysiad i rieni / dysgwr mewn coleg gynnwys manylion cyswllt yr awdurdod lleol perthnasol, yn ogystal â:

- gwybodaeth am sut i gael mynediad at drefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer darparu gwybodaeth a chyngor;
- manylion trefniadau'r awdurdod lleol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol; a
- gwybodaeth am yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad neu'r cynllun datblygu unigol.

## Dysgwyr mewn amgylchiadau penodol

Mae'r gyfres o ganllawiau atodol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026 yn cynnwys canllawiau ADY penodol ynghylch **plant sy'n derbyn gofal**; dysgwyr **sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol**; a dysgwyr y mae eu rhieni neu ofalwyr yn dewis **addysgu yn y cartref**.

# 6. Sut a phryd y dylai'r GIG fod yn rhan o'r broses?

## Un o nodau'r system ADY newydd yw sicrhau bod cydweithio gwell rhwng addysg / llywodraeth leol a'r gwasanaeth iechyd. Mae Deddf 2018 yn gosod dyletswyddau ar gyrff y GIG i gynorthwyo yn y broses o nodi ADY a llunio Cynlluniau Datblygu Unigol, ac mewn rhai achosion y broses o wneud neu sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol.

Nodwedd allweddol o'r gwaith aml-asiantaeth hwn yw'r Swyddog Arweiniol Clinigol Dynodedig Addysg (SACDA). O dan **adran 61** o'r Ddeddf, rhaid i bob bwrdd iechyd gael un o'r swyddogion hyn yn ei le i arwain a chydgysylltu cyfranogiad y bwrdd iechyd perthnasol yn y system ADY.

Mae **adran 65** o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ddarparu **gwybodaeth a chymorth** i awdurdodau lleol pan ofynnir amdanynt er mwyn cynorthwyo awdurdodau lleol i gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys asesu a oes gan blentyn neu berson ifanc ADY, natur yr anghenion hynny a'r broses o lunio cynllun datblygu unigol.

Mae **rheoliadau** a'r Cod ADY yn pennu amserlen o **chwe wythnos** i fyrddau iechyd ymateb i geisiadau o'r fath (oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth).

Mae **adran 20** o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd, ar gais, **ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd** ar gyfer ymateb i ADY plentyn neu berson ifanc.

Mae **rheoliadau** a'r Cod ADY yn pennu amserlen o **chwe wythnos** i fyrddau iechyd benderfynu ar hyn (oni bai ei bod yn anymarferol gwneud hynny oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth). Os nodir triniaeth neu wasanaeth o'r fath, rhaid i'r corff ei sicrhau ar gyfer y dysgwr. Bydd hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun datblygu unigol y dysgwr, ac mae'n rhoi hawl gyfreithiol i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol benodol honno.

**Nid oes gan ysgolion a cholegau hawl gyfreithiol** i ofyn am wybodaeth na chymorth gan un o gyrff y GIG – **rhaid i hyn ddod oddi wrth yr awdurdod lleol.**

Weithiau, efallai y bydd yn rhaid cynnal asesiad arbenigol i benderfynu'n llawn ar natur ADY dysgwr. Yn aml, gall hyn arwain at **amseroedd aros hir**; er enghraifft, ar gyfer asesiadau niwroddatblygiadol. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio, gan gynnwys yn ei **phecyn cymorth i rieni a gofalwyr**, nad oes yn rhaid cael diagnosis meddygol i gael mynediad at gymorth mewn addysg nac i nodi bod gan ddysgwr ADY.

Mae **pennod 21 o'r Cod ADY** yn darparu rhagor o wybodaeth am waith aml-asiantaeth, gan gynnwys rôl y GIG.

## A oes yn rhaid i fyrddau iechyd gydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys?

Mae pennod 8 y canllaw hwn yn trafod rôl Tribiwnlys Addysg Cymru wrth ystyried apeliadau a chyhoeddi gorchmynion. Nid yw'r gorchmynion hyn yn rhwymo byrddau iechyd yn yr un modd ag y maent yn rhwymo awdurdodau lleol.

O dan **adran 76** o Ddeddf 2018, gall y Tribiwnlys wneud argymhellion i fyrddau iechyd, ac mae'n rhaid i fyrddau iechyd naill ai ddilyn yr argymhellion hyn neu esbonio pam na fyddant yn gwneud hynny. Rhaid i fyrddau iechyd esbonio hyn drwy adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys o fewn **chwe wythnos** i ddyddiad yr argymhelliad.

# 7. Pa wybodaeth a chyngor ddylai fod ar gael?

**Mae adran 9 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chyngor am ADY a'r system ADY yn cael eu darparu. Rhaid iddynt roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid i'r cyngor a'r wybodaeth gael eu darparu mewn modd diduedd.**

Rhaid i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i roi gwybod i bobl benodol am y trefniadau hyn, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a rhieni a gofalwyr plant yn eu hardal. Lle maent yn ymwybodol o drefniadau o'r fath, rhaid i ysgolion a cholegau gymryd camau rhesymol i roi gwybod i ddisgyblion / myfyrwyr amdanynt.

Gall awdurdodau lleol ddarparu'r wybodaeth a'r cyngor hyn eu hunain neu eu comisiynu gan ddarparwr allanol. Pa bynnag drywydd y maent yn ei ddilyn, rhaid i'r wybodaeth a'r cyngor fod yn ddiduedd.

Mae **pennod 6 o'r Cod ADY** yn cynnwys rhagor o arweiniad a chyfarwyddyd ynghylch sut y dylid darparu cyngor a gwybodaeth.

# 8. Beth sy'n digwydd os nad yw teuluoedd yn fodlon a'u bod am herio penderfyniadau?

Lleihau gwrthdaro ac anghytundeb yw un o brif nodau'r system ADY newydd.

## Gofyn i'r awdurdod lleol ailystyried penderfyniadau neu gamau gweithredu gan ysgol neu goleg

Gall rhieni a gofalwyr **ofyn i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad gan ysgol** nad oes gan ddysgwr ADY ac mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymateb o fewn **saith wythnos**. Yn yr un modd, gallant hefyd **ofyn i'r awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb am gynnal cynllun datblygu unigol**, er enghraifft drwy adolygu ei gynnwys neu gymryd camau priodol os nad ydynt yn fodlon bod y cynllun datblygu unigol yn cael ei gyflawni'n llawn.

Yn achos colegau, gall person ifanc ofyn i'r awdurdod lleol gymryd drosodd ei gynllun datblygu unigol, ac yn yr achos hwnnw mae gan yr awdurdod lleol **12 wythnos** i benderfynu gwneud hynny ai peidio. Os bydd coleg yn penderfynu nad oes gan ddysgwr ADY, gall y person ifanc apelio i'r Tribiwnlys (gweler isod).

## Apelio i'r Tribiwnlys Addysg

Os yw teuluoedd yn dal yn anfodlon ar ôl i awdurdod lleol ailystyried penderfyniad, gallant apelio i **Dribiwnlys Addysg Cymru** yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol perthnasol. Ni allant apelio yn erbyn penderfyniad gan ysgol; penderfyniad yr awdurdod lleol, neu ddiffyg penderfyniad o'r fath, yn dilyn adolygiad o benderfyniad gan ysgol fyddai testun apêl y teulu.

Yn achos dysgwyr mewn addysg bellach, gellir apelio i'r Tribiwnlys hefyd yn erbyn penderfyniadau neu ddiffyg gweithredu gan goleg.

Mae gan deuluoedd **wyth wythnos** ar ôl cael gwybod am benderfyniad i gyflwyno cais apêl a datganiad achos ategol (tystiolaeth) i'r Tribiwnlys.

Mae **gwefan y Tribiwnlys** yn darparu rhagor o wybodaeth am apeliadau.

## Trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghydfod, a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol

O dan **adran 68** o Ddeddf 2018, rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau rhwng ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol. Rhaid i'r trefniadau hyn gynnwys darpariaeth i bartïon mewn anghytundeb gael mynediad at gymorth i ddatrys yr anghytundeb perthnasol gan bersonau sy'n annibynnol ar y partïon hynny.

Mae **adran 69** hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu bod gwasanaethau eiriolaeth annibynnol yn cael eu darparu i ddysgwyr y mae'n rhaid iddynt eu hatgyfeirio at y gwasanaethau hynny ar gais. Ystyr 'gwasanaethau eiriolaeth annibynnol' yn y cyd-destun hwn yw cyngor a chymorth (drwy gynrychiolaeth neu fel arall) a ddarperir i ddysgwr neu ei 'gyfaill achos' (gweler isod).

Mae **pennod 32 o'r Cod ADY** yn darparu gwybodaeth am osgoi a datrys anghytundebau, a gwasanaethau eiriolaeth annibynnol.

## Nid yw bod yn rhan o drefniadau eraill yn effeithio ar yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys, ac nid yw'r hawl hon yn ddibynnol ar fod yn rhan o drefniadau eraill ychwaith

Pan fydd awdurdod lleol yn hysbysu teulu nad oes gan ddysgwr ADY, neu pan fyddant yn cyhoeddi cynllun datblygu unigol, **rhaid iddo roi gwybod i'r teulu am yr hawl i apelio** i'r Tribiwnlys. Hefyd, rhaid i'r awdurdod lleol roi manylion ei drefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol. Rhaid iddo hefyd hysbysu dysgwyr a'u rhieni **nad yw'r ffaith eu bod yn cymryd rhan mewn gwasanaeth osgoi a datrys anghydfodau yn effeithio ar eu hawl i apelio** i'r Tribiwnlys.

**Nid oes yn rhaid i deuluoedd fod wedi defnyddio'r gwasanaethau osgoi a datrys anghytundebau cyn apelio i'r Tribiwnlys**. Os byddant yn defnyddio'r gwasanaethau hynny, nid yw'r amser y maent yn ei dreulio yn gwneud hynny yn cyfrif tuag at y terfyn amser o wyth wythnos sydd ganddynt i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys.

## Cyfeillion achos

Lle ystyrir bod gan blentyn **ddiffyg galluedd**, gall y Tribiwnlys benodi **'cyfaill achos'** i gynrychioli a chefnogi'r plentyn, a gwneud penderfyniadau a gweithredu ar ei ran. Mae cyfeillion achos yn arbennig o bwysig pan fydd angen

i blentyn sydd â diffyg galluedd gyflwyno apêl yn ei enw ei hun; er enghraifft, pan nad oes ganddo riant sy'n fodlon neu'n gallu mynd drwy broses o ddatrys anghydfod neu gyflwyno achos i'r Tribiwnlys ar ran y plentyn.

Mae **pennod 30 o'r Cod ADY** yn darparu rhagor o ganllawiau ynghylch cyfeillion achos.

# 9. Gorchmynion ac argymhellion gan y Tribiwnlys

## Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau ynghylch ADY a honiadau o wahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion. Fe'i sefydlwyd o dan Ddeddf 2018 ac mae'n disodli'r corff blaenorol, sef y Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ar gyfer Cymru.

Gall y Tribiwnlys:

- wrthod apeliadau;
- cynnal apeliadau drwy wneud gorchymyn bod gan ddysgwr ADY;
- gwneud gorchymyn bod cynllun datblygu unigol yn cael ei lunio neu fod cynllun presennol yn cael ei ddiwygio; neu
- wneud gorchymyn bod penderfyniad yn cael ei ailystyried mewn perthynas â sylwadau'r Tribiwnlys.

Gall y Tribiwnlys hefyd wneud argymhellion i fyrddau iechyd sy'n gorfod ymateb gan esbonio a fyddant yn dilyn yr argymhellion hyn. Os na fyddant yn eu dilyn, rhaid iddynt ddweud pam.

Mae Gorchmynion Tribiwnlys yn **gyfreithiol rwymol, er nad yw'r Tribiwnlys ei hun yn eu gorfodi**. Mewn achos o beidio â chydymffurfio, bydd yn rhaid i deuluoedd fynd drwy'r llysoedd neu gwyno wrth Lywodraeth Cymru.

Gan amlaf, y terfyn amser ar gyfer cynnal Gorchymyn Tribiwnlys yw **saith wythnos i awdurdodau lleol, a 35 diwrnod tymor i golegau** (ond rhaid cydymffurfio â rhai gorchmynion ar unwaith). Mae **canllawiau'r Tribiwnlys ar orchmynion apêl** yn esbonio'r sefyllfa mewn rhagor o fanylder.

**Mae gan fyrddau iechyd chwe wythnos** i ymateb i argymhellion y Tribiwnlys.

# 10. Cyflyrau meddygol ac addasiadau rhesymol ar gyfer anableddau

Nid yw bod â chyflyrau meddygol (neu gyflyrau 'gofal iechyd') o reidrwydd yn golygu bod gan ddysgwr ADY. Yn yr un modd, os oes gan ddysgwr anabledd, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu bod ganddo ADY hefyd. Lle nad oes gan ddysgwyr o'r fath ADY, dylid diwallu eu hanghenion ac ymateb i'w hamgylchiadau ar wahân i'r system ADY.

## Cyflyrau meddygol

Mae'r diffiniad o ADY, a nodir yn **adran 2** o Ddeddf 2018, yn ei gwneud yn glir y gallai anghenion meddygol gyfrannu at ADY dysgwr. Fodd bynnag, dim ond lle mae'r prawf ar gyfer ADY yn cael ei fodloni y bydd hyn yn berthnasol (h.y. mae gan y dysgwr anhawster dysgu sylweddol fwy na'r rhan fwyaf o'i gyfoedion a bydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol arno).

Felly, yn aml nid yw cyflyrau meddygol yn arwain at ADY, ond mae dal angen iddynt gael eu rheoli mewn lleoliadau addysg. Dylid gwneud hyn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar **gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd**, a gyhoeddwyd yn 2017.

## Anableddau

Mae'r diffiniad o ADY hefyd yn nodi bod gan ddysgwr ADY os oes ganddo anabledd at ddibenion **Deddf Cydraddoldeb 2010**, sy'n golygu effaith andwyol sylweddol a hirdymor, sy'n ei atal neu'n ei rwystro rhag cael mynediad at yr addysg neu'r hyfforddiant sydd yn gyffredinol yn cael ei gynnig mewn lleoliadau prif ffrwd, a bod yr anabledd hwnnw yn galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Beth bynnag yw'r achos, p'un a oes gan ddysgwr anabl ADY ai peidio, mae ysgolion a darparwyr addysg eraill yn ddarostyngedig i:

- ddyletswydd statudol gyffredinol i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl o dan **adran 20 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010**; a

- dyletswyddau penodol mewn perthynas ag addasiadau rhesymol mewn addysg, a nodir yn **Atodlen 13** i Ddeddf 2010.

# 11. Gwaith craffu a datblygiadau polisi diweddar

## Mae ADY yn faes polisi sydd wedi bod yn destun llawer iawn o waith adolygu a diwygio dros nifer o flynyddoedd, ac mae'n faes sydd wedi bod yn destun cryn dipyn o waith craffu hefyd.

Bu'r ddeddfwriaeth a oedd yn sefydlu'r system ADY – **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** – ar y gweill ers amser maith. Arweiniodd **nifer o adolygiadau ac ymgynghoriadau** at gyflwyno'r ddeddfwriaeth, a hyd yn oed ar ôl i'r Ddeddf gael ei phasio, cafodd y **system ADY ei chyflwyno dros gyfnod o bedair blynedd**, rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2025, a hynny yng nghysgod y pandemig COVID-19.

Roedd y broses o gyflwyno'r system ADY newydd yn destun **gwaith craffu yn ystod tymor y Senedd ddiwethaf (2021-2026)** gan y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a gyhoeddodd **adroddiad yn yr haf 2024** a oedd yn tynnu sylw at anghysondebau yn y ffordd yr oedd y diffiniad o ADY a darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael eu cymhwyso.

Er bod y diffiniad o ADY wedi aros yr un fath ag o dan y system Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) flaenorol, gostyngodd nifer y dysgwyr a nodwyd / a gydnabuwyd fel rhai ag ADY yn sylweddol wrth i'r system ADY gael ei chyflwyno. Bu **gostyngiad o 53% yn nifer y disgyblion** a nodir / a gydnabyddir fel rhai sydd ag ADY yn ystod y pedair blynedd ers cyflwyno'r system newydd gyntaf. Gostyngodd y ffigur hwn o 92,668 (19.5% o'r holl ddisgyblion) yn 2020/21 i 43,885 (9.5% o'r holl ddisgyblion) yn 2024/25. Bydd **data newydd o'r cyfrifiad ysgolion ar gyfer 2025/26** ar gael ym mis Awst 2026.

Aeth **erthygl gan Ymchwil y Senedd ym mis Hydref 2022** a **phennod 2 o adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2024** ati i edrych yn fanwl ar rai o'r rhesymau posibl dros y gostyngiad.

Yn ystod yr haf 2024, lansiodd Lynne Neagle AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y pryd, adolygiad o'r ffordd yr oedd Deddf 2018 a Chod 2021 yn cael eu gweithredu. Ym mis **Hydref 2025**, adroddodd yn ôl i'r Senedd ar

**ganfyddiadau'r adolygiad hwn**, gan nodi'r pum maes gweithredu allweddol a ganlyn:

- egluro pa ddysgwyr y dylid nodi bod ganddynt ADY a sut y dylid eu cefnogi;
- gwella cysondeb cenedlaethol;
- gwella cefnogaeth a gwybodaeth i deuluoedd;
- cryfhau integreiddio a chydweithio aml-asiantaeth; a
- hyrwyddo addysg ddwyieithog a chynhwysol.

Mae datblygiadau allweddol ers hynny wedi cynnwys cyhoeddi'r **pecyn cymorth i rieni a gofalwyr** a'r **canllawiau atodol**, a gyhoeddwyd ar ffurf interim cyn i'r Cod ADY gael ei ddiwygio.